# Ceidwaid moch masnachol



## Ydych chi wedi cofrestru?

- Pan fyddwch yn dechrau cadw mochyn neu foch, mae'n rhaid i chi gofrestru ei leoliad/eu lleoliad â'r corff Taliadau Gwledig perthnasol:
  - **Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA)** – Lloegr
  - **Yr Is-adran Taliadau Gwledig ac Arolygiadau (RPID)** – Yr Alban
  - **Taliadau Gwledig Cymru** – Cymru
- Mae'n rhaid i chi hefyd ddweud wrth yr **Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)** pan fydd eich amgylchiadau yn newid. Mae hyn yn cynnwys:
  - Rhoi'r gorau i gadw moch neu ddechrau/rhoi'r gorau i gadw mathau eraill o dda byw yn yr un lleoliad â'ch moch
  - Os ydych yn peidio â bod yn geidwad
  - Os ydych yn ychwanegu tir newydd at eich daliad sydd â Rhif Daliad gwahanol
  - Os ydych yn newid ceidwad cofrestredig eich daliad

## Cyfnod gwahardd symud am ugain diwrnod

Os bydd moch yn cyrraedd eich daliad o ddaliad arall, ni allwch symud unrhyw foch oddi ar eich daliad am 20 diwrnod, a hynny er mwyn ei gwneud yn haws canfod unrhyw glefydau sy'n deori a chyfyngu ar eu lledaeniad posibl.

Disgrifir eithriadau i gyfyngiadau cyfnod gwahardd symud, gan gynnwys mewn cysylltiad â phyramidiau moch cymeradwy, yn y **drwydded symudiadau moch** gyffredinol, gan gynnwys atodiad A (https://www.gov.uk/government/publications/pig-movement-general-licence-for-the-movement-of-pigs)

## Beth yw pyramid moch?

Mae cyfran fawr o'r diwydiant moch wedi'i hintegreiddio'n fertigol. Nid yw hyn bob amser yn gyson â gofynion cyfnod gwahardd symud, felly gall **APHA** gymeradwyo eithriadau.

- Mae'n rhaid i'r daliadau hyn gael eu cymeradwyo gan **APHA**, a chânt eu harchwilio gan **APHA** bob blwyddyn.
- Mae'n rhaid iddynt gadw at amodau bioddiogelwch llym er mwyn atal clefydau rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu.
- Mae'r amodau yn pennu'r symudiadau a ganiateir. Mae'r rhain yn uncyfeiriol i lawr y gadwyn gyda symudiadau eraill yn ddarostyngedig i gyfnod gwahardd symud neu drwy ddull gwahanu cymeradwy.

## Pam mae'r neges hon yn bwysig?

Drwy gael gwybodaeth gywir am geidwaid gall **APHA** gymryd camau effeithiol i atal lledaeniad clefydau fel **Clwy Affricanaidd y moch.**

Mae bioddiogelwch da yn hollbwysig o ran atal clefydau rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu. I gael mwy o gyngor ar arferion bioddiogelwch, ewch i: **Bioddiogelwch ar ffermydd moch** (https://ahdb.org.uk/knowledge-library/biosecurity-on-pig-farms)

Cofiwch, cyn eu bod yn symud, mae'n rhaid i chi nodi pa rai o'ch moch sy'n symud a **rhoi gwybod** am eu symudiadau a'u cofnodi drwy'ch system **cofnodi** symudiadau berthnasol!

Animal & Plant Health Agency · AHDB · British Pig Association · BVA British Veterinary Association · npa · PVS Pig Veterinary Society · Llywodraeth Cymru Welsh Government